

Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Mercher, 21 Ionawr 2015

Amser:

09.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Bethan Davies

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

Agenda

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Papurau i'w nodi (Tudalennau 1 – 7)

3 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

Sesiwn dystiolaeth 1 (09:05–10:15) (Tudalennau 8 – 24)

FIN(4)–01–15 Papur 1

Briff gan y Gwasanaeth Ymchwil

Nick Bennett – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Susan Hudson – Rheolwr Polisi a Chyfathrebu

Katrin Shaw – Rheolwr a Chynghorydd Cyfreithiol

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (10:15)

(Egwyl 10.15 – 10.25)

5 Ystyried pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Trafod y dystiolaeth (10:25–10:50) (Tudalennau 25 – 58)

FIN(4)–01–15 Papur 2 – Papur Cwmpasu

FIN(4)–01–15 Papur 3 – Dull o Graffu

FIN(4)–01–15 Papur 4 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol – Estyn Pwerau

FIN(4)–01–15 Papur 5 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol – Estyn Pŵer o ran Tai y Sector Preifat

FIN(4)–01–15 Papur 6 – Llythyr gan Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

FIN(4)–01–15 Papur 7 – Llythyr gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

6 Arferion Gorau o ran y Gyllideb: Materion Allweddol (10:50–11:30)

(Tudalennau 59 – 75)

FIN (4) –01–15 Papur 8 – Materion Allweddol

FIN (4) –01–15 Papur 9 – Papur ar ymweliad yr Alban

FIN (4) –01–15 Papur 10– Llythyr gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

7 Adroddiad ar Fflyd Ceir a Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Swyddfa Archwilio Cymru: Trafod yr Adroddiad Drafft (11:30–11:45) (Tudalennau 76 – 79)

FIN(4)–01–15 Papur 11 – Adroddiad Drafft

8 Ystyriaeth Gychwynnol o Fil Cymwysterau Cymru (11:45–12:00)

(Tudalennau 80 – 86)

Briff gan y Gwasanaeth Ymchwil

[Bil Cymwysterau Cymru](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

9 Ystyriaeth Gychwynnol o'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)
(12:00–12:15) (Tudalennau 87 – 93)

Briff gan y Gwasanaeth Ymchwil

[Bil Lefelau Diogel Staffio Nyrsio \(Cymru\)](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

10 Ystyriaeth o'r Llythyr ar y Bil Cynllunio (Cymru) (12:15–12:30)
(Tudalennau 94 – 97)

FIN(4)–01–15 Papur 12 – Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a
Chynaliadwyedd

FIN(4)–01–15 Papur 13 – Llythyr gan Weinidog Cyfoeth Naturiol

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Health and Social Care Committee**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Jocelyn Davies AM
Chair, Finance Committee

10 December 2014

Dear Jocelyn,

Health finances and reform

Further to your letter dated the 11 November 2014 I am now in a position to update you. The Committee believes that, in order to give adequate consideration to health service reform, any inquiry on this topic would necessarily be detailed and complex. Between now and the 2016 election, the Committee faces a number of competing priorities. The Committee therefore has requested further information from the Minister for Health and Social Services in order to help inform its decision on whether any further work is needed in this area, and whether it has the necessary time to do justice to the topic.

Please find a copy of the letter sent to the Minister in Annex A. The Committee has requested a response by 6 February 2015. Once a response is received, I will ensure that a copy is made available to you for your consideration.

Yours sincerely,

David Rees AM
Chair, Health and Social Care Committee

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6354

E-bost / Email: Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru /
SeneddHealth@Assembly.Wales

Twitter / Trydar: @iechydsenedd / @seneddhealth

Tudalen y pecyn 1

Annex A

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Health and Social Care Committee

**Mark Drakeford AM
Minister for Health and Social Services**

10 December 2014

Dear Mark,

Health finances and reform

You will be aware that the Finance Committee's report on the Welsh Government Draft Budget 2015–16 recommended that the Health and Social Care Committee should undertake a piece of work on health reform before the end of this Assembly.

The Committee believes that, in order to give adequate consideration to health service reform, any inquiry on this topic would necessarily be detailed and complex. The Committee faces a number of competing priorities between now and the 2016 election; in order to help inform its decision on whether any further work is needed in this area – and whether it has the necessary time to do justice to the topic – it would be grateful to receive some further information in writing from you.

In your response to the Committee's letter on the Welsh Government's Draft Budget 2015–16 you stated that the majority of additional funding allocated in 2014–15 and 2015–16 is required to maintain current service levels, and that the three year planning process will be used to implement new and more innovative models of service delivery. Your response also noted that the NHS's integrated service plans will ensure that the right service models and patient outcomes are achieved.

The Finance Committee's report on the 2015–16 Draft Budget noted its concerns about the apparently conflicting evidence it had received on the
Tudalen y pecyn 2

underlying rationale for the increase in resources. It noted that, while the Welsh Government asserted that additional funding for health will be accompanied by reform, some health sector witnesses said that this additional funding would be used to “plug a gap” to address anticipated deficits in health board and trust finances.

A recent letter from Dr Andrew Goodall to the Public Accounts Committee (dated 10 November) summarised the latest publicly reported financial position of health boards and trusts half way through the 2014–15 financial year. The letter highlights an emerging risk that some health boards are forecasting difficulty in meeting their budgets this year. Current forecasts of overall deficits are above the additional £200 million announced for the health service for 2014–15 in September this year.

The Committee would be grateful to receive the following information in order to inform its consideration of the Finance Committee’s recommendation:

Current funding

- Given the apparently conflicting evidence referred to above, confirmation of whether plans are in place for the additional funding for 2014–15 and 2015–16 to be used to deliver health service reform, or to maintain current service levels only;
- Confirmation of the planned or agreed distribution of the additional £200 million funding available to individual health boards and trusts in 2014–15, as soon as these figures are decided, including how these allocations were calculated;
- Confirmation of the additional funding available to individual health boards and trusts in 2015–16, including how these allocations were calculated, once available (the Committee notes that, in your response to its letter on the Draft Budget 2015–16, you have already agreed to provide this information);
- An outline of how the additional £70 million funding announced by the Minister for Finance and Government Business following the UK Government’s Autumn Statement, will be targeted to “support the Welsh NHS to undertake the reform and the step change needed to secure the long-term sustainability of the health service in Wales” as set out in her written statement on 3 December;
- A summary of the key dates in the 2015 timeline for agreeing three year plans, to begin with the deadline for the submission of plans in January 2015.

Future funding and long-term sustainability

- An outline of additional outcomes, if any, to be achieved with the additional funding in 2014-15 and 2015-16;
- An outline of the arrangements that have been or will be put in place to monitor the outcomes of this investment;
- An outline of any plans the Welsh Government has in place to assess whether services are being reformed as intended and also the levels of funding required for the health service beyond 2015-16 to ensure that the delivery of services remains sustainable.

End of year position and next year's plans

The Committee will write in due course to request information on the end of year position and next year's plans.

The Committee would be grateful to receive the information outlined above by 6 February 2015.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style with a large 'D' and 'R'.

David Rees AM

Chair, Health and Social Care Committee

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SF/JH/4174/14

Jocelyn Davies AM
Chair, Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff
CF99 1NA

18 December 2014

Dear Jocelyn,

Autumn Statement 2014 Consequentials

During the Finance Committee's scrutiny of the First Supplementary Budget 2014-15, the Welsh Government acknowledged the Committee's interest in receiving information regarding Barnett consequentials and outlined its intention to provide information on the impact of consequentials on the Wales DEL following UK Government fiscal events.

In line with this, and following the UK Government's Autumn Statement on 3 December, I am writing now to set out the implications for the Wales DEL. A detailed list of all consequentials, along with aggregated totals for each classification of expenditure, can be found at Annex A. The Welsh Government has discretion over how it uses these additional resources, which are not earmarked for a particular purpose.

I hope that this information is useful.

Best wishes,

Jane

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Annex A – Impact of the Autumn Statement 2014 on the Welsh Budget

Table 1. Barnett Consequentials Aggregates

| | £000s ¹ | | |
|--------------------------------------|--------------------|----------------|----------------|
| | 2014-15 | 2015-16 | Total |
| Resource DEL | 1,344 | 113,264 | 114,608 |
| Capital DEL | - | 6,527 | 6,527 |
| Capital DEL - Financial Transactions | - | 2,288 | 2,288 |
| Total DEL | 1,344 | 122,079 | 123,423 |

¹ Figures are subject to HM Treasury roundings.

Table 2. Autumn Statement 2014 Consequentials

| | Expenditure Classification ³ | £000s ² | |
|---|---|--------------------|---------|
| | | 2014-15 | 2015-16 |
| Business Rates | | | |
| Doubling of SBRR for 2015-16 | RDEL | - | 23,967 |
| 2% Cap for 1 year | RDEL | - | 5,892 |
| Additional £500 retail discount | RDEL | - | 6,349 |
| Transitional Relief | RDEL | - | 572 |
| Health | | | |
| Mental health - eating disorders | RDEL | - | 1,716 |
| Mental health - adult community learning | RDEL | - | 286 |
| Mental health - dementia | RDEL | - | 172 |
| Additional funding - NHS frontline | RDEL | - | 67,210 |
| Additional funding - NHS frontline | CDEL | - | 4,290 |
| Education | | | |
| Early intervention pilot | RDEL | - | 172 |
| Academies | RDEL | - | 572 |
| Careers | RDEL | - | 1,144 |
| Culture, Media and Sport | | | |
| WW1 Cultural activities | RDEL | - | 86 |
| Football Facilities | RDEL | - | 114 |
| Football Facilities | CDEL | - | 458 |
| Manchester International (Lyric Theatre) | CDEL | - | 320 |
| Manchester Museum of Science and Industry | CDEL | - | 29 |
| Housing | | | |
| Housing Zones | CDEL (FTs) | - | 2,288 |
| Transport | | | |
| Rail Fares | RDEL | 1,258 | 4,462 |
| Environment and Energy | | | |
| Shale - Support for Planning | RDEL | - | 69 |
| Shale - Regulators and Public Engagement | RDEL | - | 63 |
| Kew Gardens | RDEL | 86 | 132 |
| Coastal Paths | RDEL | - | 286 |
| Off Grid Gas Fund | CDEL | - | 1,430 |

² Figures are subject to HM Treasury roundings.

³ Resource DEL (RDEL), Capital DEL (CDEL) (traditional) and Capital DEL Financial Transactions (CDEL FTs). Note, Capital DEL (Financial Transactions) can only be used for loans and equity and must be repaid to HM Treasury.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Pwyllgor Cyllid – 21 Ionawr 2015

Gwelliannau i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005

1. Cyflwyniad

- 1.1 Y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu swyddfa'r Ombwdsmon yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Ar yr adeg pan y'i rhoddwyd ar waith tybiwyd ei bod yn flaengar iawn o ran deddfwriaeth Ombwdsmon ac mae'n uchel ei pharch o hyd yn y DU ac yn rhyngwladol¹.
- 1.2 Yn 2015 bydd y Ddeddf yn ddeng mlwydd oed. Mae deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno yng Ngweriniaeth Iwerddon ac mewn gwledydd eraill ers 2005, tra fod deddfwriaeth newydd, sydd yn elwa ar y profiad yng Nghymru, ond yn cael ei llunio i'w datblygu ymhellach, yn cael ei chyflwyno yng Ngogledd Iwerddon.
- 1.3 Hefyd, mae Comisiwn y Gyfraith wedi adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr.² Roedd ganddo sylwadau ffafriol am y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) bresennol ond gwnaeth nifer o argymhellion ar gyfer newid, a chyfeirir at un ohonynt yn adran 2.5.
- 1.4 Rwyf wedi bod yn fy swydd ers Awst 2014; yn ystod y cyfnod hwnnw rwyf wedi cael cyfle i drafod materion deddfwriaethol â fy nghydweithwyr ym mhob un o awdurdodaethau'r DU.
- 1.5 Mae'r papur hwn yn amlinellu pum prif faes newid sy'n seiliedig ar brofiadau fy swyddfa, datblygiadau mewn arferion gorau o fannau eraill yn ogystal ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith.
- 1.6 Mae'r papur yn canolbwyntio ar y pum rhan ar wahân hyn yn y gobaith na fydd y newidiadau a awgrymir yn ddadleuol ac y byddant yn cael cefnogaeth eang i gael eu hadolygu a'u gweithredu gan y Cynulliad yn 2015. Mae'r newidiadau a awgrymir yn adlewyrchu ein pedair blaenoriaeth sylfaenol:
 - **Paratoi ar gyfer y dyfodol:** bwriedir i'r cynigion sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i ateb y galw, ond y bydd hefyd yn rhoi sylw i heriau'r dyfodol a fydd yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth mewn cymdeithas sy'n heneiddio lle mae niferoedd uwch o bobl yn agored i broblemau corfforol ac emosiynol.

¹ Ombudsman Legislation – time for a review? Peter Tyndall Mawrth 2013

² Law Com No 329 14 July 2011 <http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/public-services-ombudsmen.htm>

- **Cyfiawnder cymdeithasol:** mae'r cynigion yn sicrhau y bydd yn haws i ddinasyddion o gefndiroedd mwy difreintiedig, a all fod yn fwy dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus, i wneud cwyn.
- **Canolbwyntio ar y Dinesydd:** bydd y cynigion yn cryfhau llais y dinesydd ac yn sicrhau pan yn bosibl y bydd prosesau'n dilyn y dinesydd yn hytrach na'r sector neu'r seilo.
- **Ysgogi gwelliant mewn delio â chwynion a gwasanaethau cyhoeddus:** bydd y cynigion hyn yn gwneud cyfraniad gwirioneddol at wella gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â chynnig gwerth rhagorol am arian. Gellir cyflawni'r newidiadau drwy gynnal cyllid swyddfa'r Ombwdsmon ar ddim mwy na 0.03% o Gyllideb bloc Cymru.

2. Pum Maes ar gyfer Newid

2.1 Ymchwiliadau o 'mhen a mhastwn fy hun

- (a) Yn ddiethriad bron, mae gan ombwdsmy'n gwasanaethau cyhoeddus ledled Ewrop, ac yn rhyngwladol hefyd, y pŵer i ymgymryd ag ymchwiliadau 'o'i ben a'i phastwn ei hun'. Mae gan yr Ombwdsmon yng Ngweriniaeth Iwerddon bŵer o'r fath eisoes a bydd yn cael ei gyflwyno yng Ngogledd Iwerddon hefyd cyn hir. Y tu allan i'r DU, dim ond pum aelod o Gyngor Ewrop sydd ag ombwdsmy'n sydd heb bwerau 'o'i ben a phastwn ei hun': Gwlad Belg, Lwcsembwrg, Azerbaijan, Kyrgyzstan a Liechtenstein.
- (b) Defnyddir y pŵer hwn ar adegau prin i ymchwilio pan fydd problem amlwg ond lle nad oes cwyn wedi'i chyflwyno neu, yn fwy arferol, i ymestyn ymchwiliad i gŵyn i gynnwys cyrff eraill lle'r ymddengys fod y camweinyddu neu'r methant gwasanaeth a nodwyd yn debygol o fod yn systematig ac yn effeithio ar bobl eraill heblaw'r achwynydd.
- (c) Ymgwymerodd Ombwdsmon Gweriniaeth Iwerddon â phum adolygiad o'i phen a'i phastwn ei hun rhwng 2001 a 2010 ar faterion yn amrywio o gymorthdaliadau mewn cartref gofal nyrsio, ad-daliadau treth i weddwon, costau am gasglu sbwriel a'r hawl i bobl hŷn i gael gofal cartref nyrsio.³
- (d) Byddai'n bwysig i lunio unrhyw newidiadau mewn ffordd sy'n sicrhau na fyddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio oni bai ei bod yn briodol ac y gellid cyfeirio achosion at reolyddion pan fyddai hynny'n opsiwn mwy addas.
- (e) Mae'r pŵer hwn yn debygol o fod yn bwysicach wrth i ni weld effaith cymdeithas sy'n heneiddio gyda dinasyddion mewn sefyllfaoedd bregus naill ai'n analluog neu'n ofni cwyno.

³ Papur a baratowyd gan Swyddfa Ombwdsmon Gogledd Iwerddon ar Bŵer i Gynnal Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun

2.2 Mynediad – cwynion llafar

- (a) Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn ddefnyddiol ar y cyfan i gynnig mynediad at y swyddfa. Ni chodir tâl am ddefnyddio gwasanaeth yr Ombwdsmon ac mae gofyniad ar gyrff o fewn yr awdurdodaeth i roi gwybod i bobl am eu hawl i gwyno wedi sicrhau bod pobl yn gallu cysylltu â'r swyddfa yn ôl yr angen. Mae gofyniad y dylai pob cwyn fod yn ysgrifenedig. Er bod gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn i dderbyn cwynion ar ffurf arall os yw hynny'n briodol, rhaid ystyried hyn fesul achos.
- (b) Fodd bynnag, o gofio'r newid yn natur cyfathrebu electronig, a'r ystyriaethau cydraddoldeb sylweddol sydd ynghlwm wrth allgau pobl na all ysgrifennu, gan gynnwys, er enghraifft, pobl ag anableddau dysgu, gellid dadlau dros yr angen i foderneiddio'r agwedd hon ar y ddeddfwriaeth fel bod y ddeddfwriaeth yn datgan yn eglur bod modd cyflwyno cwynion ar lafar gyda'r Ombwdsmon yn gorfod cyfiawnhau i gorff sy'n destun ymchwiliad pam ei fod wedi hepgor y gofyniad i gwyn gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig mewn achosion unigol. Ar lefel y DU, mae 94% o'r boblogaeth yn cyrraedd lefel llythrennedd 1 neu uwch, yng Nghymru dim ond 87% sy'n cyrraedd y lefel hon. Ni ddylai mynediad i bobl nad ydynt yn gallu ysgrifennu fod yn ddewisol. Dylent gael yr un mynediad ag unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth eraill yng Nghymru. Yn Lloegr cafodd deddfwriaeth ei diwygio'n ddiweddar ar gyfer yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Mae perygl bod yr angen yn fwy yng Nghymru ond ein bod yn llusgo ar ôl yn hyn o beth.

2.3 Awdurdod Safonau Cwynion

- (a) Yng Nghymru, rydym wedi datblygu polisi cwyno enghreifftiol i helpu i sicrhau cysondeb rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r defnydd sydd wedi'i wneud ohono wedi bod yn anghyson, ond mae'n gwella. Mae'r penderfyniad i'w fabwysiadu'n un gwirfoddol, ond mae cyrff yn cael eu hannog yn gryf i'w ddefnyddio. Mewn theori, yn dilyn y newidiadau diweddar i'r drefn gwyno statudol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, dylai pob gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i ddatganoli i Gymru fod yn gweithredu gweithdrefn gwyno dau gam syml. Fodd bynnag, mae problem wrth geisio ei gweithredu. Rwyf yn ymwybodol o'r drefn yn yr Alban lle, ychydig flynyddoedd yn ôl, rhoddwyd rôl Awdurdod Safonau Cwynion i Ombwdsmon yr Alban. Gwn fod Ombwdsmon yr Alban yn credu bod y trefniadau hyn wedi bod yn arbennig o effeithiol drwy ei alluogi i fynd i'r afael â phroblemau o ran safonau delio â chwynion o fewn cyrff yn ei awdurdodaeth. Credaf fod achos dros fabwysiadu dull o'r fath yng Nghymru fel y bydd gan unrhyw arweiniad a roddaf i gyrff ar ddelio â chwynion rym statudol fel y gallaf helpu i wella sut yr ymdrinnir â chwynion yn y sector cyhoeddus.

2.4 Ymestyn a diwygio awdurdodaeth – Gofal Iechyd

- (a) Gyda chymdeithas yn heneiddio mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn elfen bwysig o bolisi cyhoeddus. Yn ddiweddar cafodd fy awdurdodaeth ei hymestyn i gynnwys gofal cymdeithasol sy'n cael ei hunan gyllido a gofal hosbis; fodd bynnag, ni allaf ymchwilio i ofal iechyd preifat, oni bai ei fod wedi'i gomisiynu gan y GIG.

- (b) Yn ddiweddar bu achos na allwn ei ddatrys lle'r oedd claf wedi cael ei drin gan y GIG, yna'n breifat (wedi'i hunan gyllido) ac yna eto gan y GIG. Yn anffodus bu farw'r claf. Ni allaf ymchwilio i ofal iechyd sy'n cael ei ariannu'n breifat. Yn amlwg, mae angen diwygio deddfwriaeth lle mae claf yn dewis cael ei drin yn y sectorau cyhoeddus a phreifat fel y bydd y drefn gwyno'n dilyn y dinesydd ac nid y sector⁴. Argymhellwyd y dylai awdurdodaeth yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd gael ei ymestyn i gynnwys y sector gofal iechyd preifat yn ei gyfanrwydd.⁵
- (c) Mae cynnwys darparwyr sector preifat yn codi cwestiynau sy'n ymwneud ag ariannu trefniadau i ddelfio â chwynion a hefyd â chydymffurfiaeth. Er bod ymchwiliadau i gwynion am ofal cymdeithasol preifat yn cael eu hariannu drwy'r arian cyhoeddus a gaf drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, gellid tybio bod angen ystyried trefniadau gwahanol pe bai darparwyr gofal iechyd preifat hefyd yn dod o fewn yr awdurdodaeth.
- (d) Mae cynlluniau ombwdsmyr y sector preifat fel arfer yn cael eu hariannu gan y cyrff sydd o fewn eu hawdurdodaeth. Mae hyn fel arfer yn cael ei ategu gan statud. Gall y dull ariannu fod ar ffurf ardoll flynyddol, neu'n seiliedig ar godi tâl fesul achos, neu'n aml yn gyfuniad o'r ddau.
- (e) Mae hyn yn golygu nad yw'r gost yn cael ei hysgwyddo gan y coffrau cyhoeddus ac mae hefyd yn gweithredu'r egwyddor mai'r "llygrwr sy'n talu", gan roi cymhelliad i ddarparwyr i osgoi gwneud camgymeriadau a datrys cwynion fel ffordd o osgoi'r costau. Mae dadl gref yma eto dros sicrhau bod hyn yn wir yn achos unrhyw ddarparwr preifat o fewn awdurdodaeth y swyddfa. Mae'r model cyllido hybrid hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio gan swyddfa Ombwdsmon New South Wales, er enghraifft.⁶ Fodd bynnag, fel y nododd Lesley Griffiths fel Gweinidog Llywodraeth Leol: "Byddai'r awgrym o ardoll, er enghraifft, yn gryn her i'w weithredu".⁷ Byddai cyflwyno system o'r fath yn amlwg yn ddewis polisi i'r Pwyllgor.
- (f) Os yw cyrff o fewn yr awdurdodaeth yn gyrrff cyhoeddus, mae'r pwerau presennol i wneud argymhellion yn gweithio'n dda ac nid oes angen amlwg am newid. Hyd yma, nid oes dim un darparwr gwasanaeth cyhoeddus wedi gwrthod gweithredu argymhelliad. Fodd bynnag, lle mae cyrff preifat o fewn yr awdurdodaeth, fel yn achos darparwyr gofal cymdeithasol yn awr, ni ellir defnyddio'r broses ddemocrataidd yn yr un modd a gall fod yn anos i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae gan gynlluniau ombwdsmyr sector preifat bwerau rhwymo fel arfer a byddai'n fuddiol i ystyried cynnwys y ddarpariaeth hon yn achos darparwyr preifat yn unig yn y dyfodol.

⁴ Gyda Deddf Cymru 2014 wedi cael Cydsyniad Brenhinol rwyf yn ymwybodol efallai y bydd angen diwygio Atodlen 3 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 i roi awdurdodaeth i mi i ystyried cwynion yn erbyn yr Awdurdod Refeniw Cymru newydd.

⁵ Adolygiad yr Adran Iechyd i Reoliadau Ymyriadau

Cosmetig. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/192028/Review_of_the_Regulation_of_Cosmetic_Interventions.pdf

⁶ Ombudsman Legislation – time for a review? Peter Tyndall Mawrth 2013

⁷ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC at Christine Chapman Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

- (g) Mae anghysonder hefyd yn y ddeddfwriaeth bresennol wrth ystyried a yw darparwyr gwasanaeth iechyd teulu unigol (e.e. meddygon teulu neu ddeintyddion, yn hytrach na meddygfa neu bractis) o fewn awdurdodaeth. Mae hyn yn cael yr effaith anffodus o bersonoli cwynion yn y sector hwn, ond mewn mannau eraill, y darparwr sector cyhoeddus, yn hytrach nag unigolyn, sydd o fewn awdurdodaeth. Byddai unrhyw newid yn golygu y byddwn yn enwi'r practis neu'r feddygfa berthnasol mewn unrhyw adroddiad yn hytrach nag unrhyw ymarferydd unigol. Gall hyn fod yn annheg hefyd os yw'r ymarferydd sy'n gyfrifol am unrhyw fethiant mewn gwasanaeth wedi symud o'r practis neu feddygfa dan sylw ers y digwyddiad honedig. Fodd bynnag, mae gennyf eisoes y prŵer i enwi unrhyw unigolyn (heblaw'r awdurdod rhestredig sy'n destun ymchwiliad) os, ar ôl ystyried buddiannau'r unigolyn sydd wedi dioddef mewn unrhyw gŵyn neu unrhyw unigolyn arall a dybiaf sy'n briodol ac y credaf ei bod er lles y cyhoedd i wneud hynny.

2.5 Cysylltiadau â'r llysoedd

- (a) Mae Comisiwn y Gyfraith wedi nodi nifer o feysydd lle byddai newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn ddymunol. Ar hyn o bryd mae cyfyngiad statudol sy'n atal Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rhag ystyried cwyn lle gallai'r achos gael ei ystyried gan y llysoedd. Fodd bynnag, mae disgresiwn i ddiddymu'r gofyniad hwn. Mae Comisiwn y Gyfraith o'r farn y dylid diddymu'r gwaharddiad hwn yn gyfan gwbl, fel y gall achwynwyr ddewis pa un yw'r opsiwn mwyaf priodol ar eu cyfer.
- (b) Hefyd, nid oes darpariaeth ar hyn o bryd i ganiatáu i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ystyried cwyn pan fydd barnwr yn penderfynu mai dyna fyddai'r ffordd orau o ddatrys y mater. Byddai newid y gyfraith i ganiatáu'r Llys Gweinyddol i "atal" achosion ac i'w cyfeirio at yr Ombwdsmon yn datrys y mater hwn, ond mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell y dylai'r disgresiwn o ran ymchwilio neu beidio aros gyda'r Ombwdsmon fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- (c) Yn olaf, mae Comisiwn y Gyfraith wedi awgrymu y dylai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru allu cyfeirio achos i'r llys i gael penderfyniad ar bwynt cyfreithiol a allai fel arall atal neu rwystro ymchwiliad yn ogystal â chael eglurder os oes amheuaeth a yw mater o fewn awdurdodaeth.
- (d) Mae'r mater olaf hwn yn amlwg yn effeithio ar system y llysoedd yng Nghymru a Lloegr a gofynnir am gyngor i ystyried a allai'r newid olaf hwn ddod o fewn cymalau Deddf adolygedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

3. Cost Newid

3.1 Ymchwiliadau o 'mhen a mhastwn fy hun

- Dau swyddog ymchwilio llawn amser – £80k-£100k, gan gynnwys argostau.

3.2 Mynediad – cwynion llafar

- Dim cost.

3.3 **Awdurdod Safonau Cwynion**

- Dau swyddog ymchwilio llawn amser – £80k-£100k, gan gynnwys argostau.

3.4 **Ymestyn a diwygio Awdurdodaeth – Gofal Iechyd**

- Yn ddibynnol ar ddull cyllido cyhoeddus neu breifat – darpariaeth £0k- £40k-£50k (yn ddibynnol ar y dewis polisi parthed ardoll).

3.5 **Cysylltiadau â'r llysoedd**

- £20k Cyfeiriadau o/i llysoedd.

3.6 **Cyfanswm costau: £180k- £270k y flwyddyn.**

4. **Y Ddadl dros Newid**

4.1 Wrth ystyried y dadl dros newid, rwyf wedi bod yn awyddus i ganolbwyntio ar:

- yr angen i baratoi'r ddeddfwriaeth a'r sefydliad ar gyfer y dyfodol
- gwella cyfiawnder cymdeithasol a gwneud ynŵsi bod lleisiau achwynwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig yn cael eu clywed
- gwneud yn siŵr bod gwaith yr Ombwdsmon yn Canolbwyntio ar y Dinesydd, yn hytrach na chael ei gyfyngu i sectorau neu seilos unigol
- hybu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac wrth ddelio â chwynion
- fforddiadwyedd a gwerth am arian.

4.2 Credaf fod y newidiadau a awgrymir yn rhoi sylw i'r blaenoriaethau hyn, a gobeithiaf y byddant yn denu cefnogaeth eang.

Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Ionawr 2015

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

17 Rhagfyr 2014

Annwyl Jocelyn

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Fel y gwyddoch, cynhaliodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol sesiwn tystiolaeth lafar gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i drafod ei adroddiad blynyddol.

Fel rhan o'r sesiwn honno, buom yn trafod dengmlwyddiant arfaethedig Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Clywsom gan yr Ombwdsmon, er bod y Ddeddf wedi bod yn ddarn effeithiol o ddeddfwriaeth, roedd rhai meysydd yr oedd angen eu cryfhau, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â phwerau 'ar ein menter ein hunain', awdurdodaeth a mynediad at yr Ombwdsmon. Trafodwyd hefyd y cysylltiadau â'r llysoedd a'r posibilrwydd o gael gwared â'r bar statudol presennol sy'n atal y Ombwdsmon rhag ystyried cwyn lle gallai'r achos gael ei ystyried gan y llysoedd.

Ar ôl ystyried y mater, mae'r Pwyllgor yn cytuno bod rhinwedd mewn adolygu'r ddeddfwriaeth, ac mae'n credu y dylai'r gwaith hwn gael ei arwain gan un o bwyllgorau'r Cynulliad. Yn anffodus, mae ein llwyth gwaith deddfwriaethol dros y flwyddyn nesaf yn golygu y byddai'n anodd iawn i ni neilltuo'r amser sy'n angenrheidiol i hyn. Deallaf o drafodaethau anffurfiol gyda chi y byddai blaenraglen waith y Pwyllgor Cyllid yn caniatáu i chi ymdrin â'r gwaith hwn.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 0300 200 6338
Ebost / Email : SeneddCCLIL@Cynulliad.Cymru

Os bydd eich Pwyllgor yn cytuno i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, byddem yn fodlon cynorthwyo mewn unrhyw fodd y gallwn. Byddwn yn ddiolchgar hefyd pe gallech roi gwybod inni am eich cynnydd.

Er gwybodaeth, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Llywodraeth Leol ar y pryd ar ddiwedd y llynedd yn gofyn am ei barn ar ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Mae copi o'i hymateb wedi'i atodi i'r llythyr hwn. Tynnwn eich sylw'n arbennig at ei sylwadau am bwerau hunan-fenter ar gyfer yr Ombwdsmon, a chytunwn y byddai angen llunio unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn yn y fath fodd fel y byddai'n sicrhau bod rôl yr Ombwdsmon yn parhau yn bencampwr defnyddwyr gwasanaethau unigol ac yn osgoi unrhyw orgyffwrdd â gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag adolygiadau system gyfan o wasanaethau'r sector cyhoeddus.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Christine Chapman". The signature is written in a cursive, flowing style.

Christine Chapman AC

Cadeirydd

Cc. Mr Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AM
Chair of Communities, Equalities and Local Government Committee

R February 2014

Dear Christine

Public Services Ombudsman for Wales

Thank you for your letter of 12 December following the meeting your Committee had with the outgoing Public Services Ombudsman to discuss his Annual Report. You sought the views of the Welsh Government on some of the points he put to you and we are grateful to the Committee for giving us the opportunity to respond. However, I must apologise for the delay in responding.

The Welsh Government regards the role of the Public Services Ombudsman as a vital one in the overall context of providing high quality public services to the people of Wales. It is also necessary as a recourse for individuals who have not received the treatment they have a right to expect. The Permanent Secretary takes very seriously indeed, any issues raised with him by the Ombudsman and maintains regular channels of communication to ensure we are responding quickly and appropriately. As we move into consideration of the report on Public Service Governance and Delivery, any future changes to the configuration or delivery of public services which may emerge from its consideration, it is even more vital the Ombudsman is on hand to provide their services for the citizen.

Therefore, we continue to believe the core role of the Ombudsman, as currently constituted, is hugely important to Wales. Whatever decisions may be taken to expand the role in the future, they should not distract from the basic role of acting as a means of appeal and redress for citizens where they feel a public service provider has let them down. Our primary concern is for the Ombudsman to continue to focus on delivering this function.

Of course, as a public body which is itself subject to the scrutiny of the Ombudsman, as with the Auditor General for Wales, we do recognise these are matters which the Assembly itself will decide upon, if and when, there are to be changes and I wish our comments to be viewed in this light.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylcheddu 55

Printed on 100% recycled paper

We have studied carefully the transcript of the evidence given to you by the outgoing Public Services Ombudsman, where he sets out the arguments to support the points which he put to you. We do recognise Peter Tyndall makes a number of strong points which deserve proper consideration. However, neither the Welsh Government nor, I am sure, the Committee, would wish to rush into an expansion of the role of the Ombudsman without further and more widespread debate and consideration, not least with the new permanent Ombudsman when they are appointed. I hope, therefore, the Committee will recognise these are initial views only and the start of a dialogue which you will wish to have with the new Ombudsman.

Own-Initiative Powers

We recognise circumstances in which this approach may have merit. We can understand the frustration the previous Ombudsman felt, on occasion, when he was aware of a pattern of cases emerging and he was not in a position to look at the pattern on behalf of the wider public service. On the other hand, we are also conscious there may be a risk here of "mission-creep" on the Ombudsman's part and a move from championing the service users towards providing whole-system critiques of sectors is something which is more properly the role of the Auditor General for Wales. Ultimately, it would come down to the personal approach of the Ombudsman and how they decided to use these powers if they were available. So should this issue be pursued, we feel it should be carefully circumscribed and only available in specific and exceptional circumstances.

Jurisdiction of the Ombudsman

We would certainly agree with the principle where those using public services, even where they are delivered by a private sector supplier, should still have the same level of redress where possible. In practice it is more difficult to deliver this. The suggestion of a levy, for example, would be very challenging to put into practice. We would certainly support an awareness-raising campaign to remind individuals of their rights of complaint to the Ombudsman in the context of the delivery of health-related services.

Statutory Bars

At present, we believe it would be sensible to maintain the provision which presumes against the Ombudsman investigating cases where the complainant could have recourse to the courts, although we recognise allowing individuals the right, in effect, to choose which course of action to pursue, could introduce an element of uncertainty as to the most appropriate way forward.

I have commissioned a review of audit, inspection and regulation to look at how these issues link up in more detail. I will ask for this point to be considered further as part of those deliberations.

Binding Remedies

We certainly would not wish to see service-users disadvantaged because a private sector supplier refuses to comply with the recommendation of the Ombudsman. However, before supporting binding remedies as the solution, we believe there should be better scoping of how many cases this might, in fact, encompass and the extent to which other alternative solutions would not provide the answer, for example, making greater use of recourse to existing professional associations who often do have the power to compel their members to make reparation.


Complaint Handling, particularly within the Health Service

Changes in the levels of complaints in a service area can sometimes come from a number of reasons. However, we do recognise the increased level of complaints within the health service and recognise more needs to be done by health service managers to ensure complainants are treated with appropriate seriousness and complaints resolved promptly and thoroughly. The Minister for Health and Social Services has recently announced his intention to commission a review of Handling of Concerns in the NHS in Wales to address this issue.

Oversight of Complaints

We do agree with the Ombudsman there is more value to be gained from better analysis at an all-Wales level of complaints made in the different sectors of Wales, including the opportunity to make better comparison between public bodies. However, we should not under-estimate the difficulties involved in assimilating reliable data which can properly be used for such purposes. If the Ombudsman were to pursue this exercise, we would certainly support the work, subject to reassurances about the additional burden of data collection and verification, which might be added to the public service in Wales.

I hope your Committee will find these responses helpful in its overall deliberations

Regards


Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf / Our ref: SF/JH/4161/14

Jocelyn Davies AM
Chair of the Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

18 December 2014

Dear Jocelyn,

I was asked to respond to the second recommendation of the Finance Committee arising from their consideration of the estimates of the Public Service Ombudsman. The Committee has recommended that the Ombudsman should work with the Welsh Government to prepare a clear plan and timetable for amending the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005. I am writing with regard to the Finance Committee recommendation 2 in regard to the above estimates your committee considered in November 2014.

Similar issues were raised by the outgoing Public Services Ombudsman for Wales in January 2014 this year and the then Minister, Lesley Griffiths AM, wrote to Christine Chapman AM, Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee with the views of the Welsh Government and our view remains the same.

The Welsh Government values the work of the Ombudsman very highly indeed and we seek to support him in every way in which we can. However, the Welsh Government is also a public body subject to the scrutiny of the Ombudsman itself. We feel, therefore, that it would be more appropriate for the Assembly itself to enter into a dialogue with the Ombudsman and to pursue any legislative actions which might result from that dialogue – it is, after all, the Assembly Commission who are responsible for the appointment of the Ombudsman, rather than the Welsh Government. We will, of course, have views of our own to be fed into the consideration – not least in the context of taking forward public service reform - but those views should be considered alongside those of other bodies which are subject to the Ombudsman. Of course, we also have to recognise that the legislative programme for the Assembly is already very busy, but were this to find space in the busy legislative agenda, we will of course engage fully with any proposals to enhance the core role of the Ombudsman

I hope that your Committee will find these responses helpful in its overall deliberations.

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff

Tudalen 58

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

Printed on 100% recycled paper

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance & Government Business



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jocelyn Davies AM
Chair of Finance Committee

18 December 2014

Dear Jocelyn,

At the Finance Committee on 10th December I was asked to provide information on how I engage and use academic experts to generate economic data.

Under the Code of Practice for Official Statistics, statisticians engage with a wide range of users across the academic, public and private sector to inform decisions on statistical priorities. This ranges from formal consultation exercises, user engagement events to more informal dialogue as required. In terms of economic data this has included major consultations in 2009 and 2012, together with a user event in 2011, as well as the general consultation on proposals for official statistics earlier in 2014.

The Chief Economist engages frequently with a variety of academic experts, both within Wales and beyond, in the context of procuring economic research and disseminating findings.

I recognise the importance of engaging further over the next few months and years with academic experts, and experts from other sectors, as we obtain new financial powers. To this end, I have established a Tax Advisory Group which includes a senior research economist from the Institute for Fiscal Studies, along with representatives from the accountancy and legal professions.

Best wishes,
Jane

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance & Government Business

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Cyllid
Finance Committee
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA



Carl Sargeant
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

xx Ionawr 2015

Annwyl Carl

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â goblygiadau ariannol y Bil Cynllunio (Cymru) ar 26 Tachwedd 2014 a diolch am eich gohebiaeth a oedd yn amlinellu rhai o'r anghysondebau yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Pwyllgor yn nodi eich bod yn bwriadu gwneud y newidiadau hyn ar ddiwedd cyfnod dau.

O ystyried y wybodaeth yn y Bil, ni all y Pwyllgor ddod i unrhyw gasgliadau pendant na llunio unrhyw argymhellion ar gostau ac arbedion y ddeddfwriaeth hon. Credwn mai'r wybodaeth ariannol yn y Bil yw'r amcangyfrif bras gorau ar gyfer y costau o ystyried y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. At hynny, er nad yw'r amcanestyniadau ar gyfer arbedion o reidrwydd mor gadarn â hynny, rydym yn croesawu bwriad y ddeddfwriaeth i gael gwared ag achosion o oedi o'r system a'r posibilrwydd o wneud arbedion sylweddol drwy'r ddeddfwriaeth.

Nododd y Pwyllgor na chaiff y penderfyniad terfynol ynghylch llawer o'r costau ei wneud hyd nes bod yr is-ddeddfwriaeth wedi'i gwneud. I'r perwyl hwn, byddwn yn argymhell i'r Pwyllgor Cyllid nesaf y dylai ailystyried goblygiadau ariannol y Bil hwn mewn tua phum mlynedd i weld a oedd y costau a'r arbedion yn realistig.

Rydym wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn amlinellu canfyddiadau'r Pwyllgor er mwyn llywio'r gwaith o graffu ar y Bil drwy'r Cynulliad.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jocelyn Davies'.

*Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor*